

Anwedd, lleithder a llwydni

Mynd i'r afael â'r broblem

Does neb eisiau byw mewn cartref llaith. Gall lleithder achosi llwydni ar waliau a dodrefn ac achosi i fframiau ffenestri pren bydru. Mae hefyd yn ddrwg i iechyd.

Caiff rhai mathau o leithder ei achosi gan **anwedd**. Gall hyn arwain at dwf mewn llwydni sy'n ymddangos fel cwmwl o smotiau bach du. Ar gyfer mathau eraill o leithder, gweler y blwch isod.

Mae anwedd yn digwydd pan ddaw aer llaith i gysylltiad ag arwyneb oerach, fel wal, ffenestr, drych ac ati. Ni all yr aer ddal y lleithder a bydd diferion bach o ddŵr yn ymddangos. Mae'n digwydd hefyd mewn mannau lle mae'r aer yn llonydd, fel corneli ystafelloedd, y tu ôl i ddodrefn neu y tu mewn i gypyrddau dillad.

Sut i leihau anwedd yn y cartref

1] Cynhyrchu llai o leithder

Mae pethau syml yn gwneud gwahaniaeth mawr, fel cadw caeadau ar sosbenni wrth goginio, sychu dillad y tu allan (nid ar reiddiaduron), rhoi twll aer i'r awyr agored i'ch peiriant sychu



Nid anwedd yw unig achos lleithder

Caiff '**lleithder treiddiol**' ei achosi gan leithder sy'n dod i mewn i'r tŷ drwy bibellau sy'n gollwng, to wedi'i ddfirodi, gwteri wedi blocio, bylchau o amgylch fframiau ffenestri a rendro a gwaith brics diffygiol neu wedi cracio. Gellir cywiro'r holl broblemau hyn.

Mae '**lleithder sy'n codi**' yn digwydd oherwydd cwrs lleithder diffygiol (neu lle nad oes un yn bodoli). Bydd hyn yn gadael 'marc llanw' tua 1m uwchben y llawr. Mae atgyweirio lleithder sy'n codi yn swydd i adeiladwr cymwys.

Gall cartrefi newydd weithiau deimlo'n llaith gan fod y dŵr a ddefnyddiwyd yn ystod adeiladu (mewn sment, plastr ac ati) yn dal i sychu.



Mae llwydni anwedd yn hyll a gall achosi problemau iechyd

dillad ac osgoi gwresogyddion paraffin neu wresogyddion nwy mewn potel heb bibell agored.

2] Gadewch yr aer llaith allan a'r awyr iach i mewn

Mae ffaniau echdynnu yn ffordd dda o gael gwared ar aer llaith ac ager fel bod llai o anwedd yn ffurfio. Mae gan rai cartrefi modern iawn ffaniau echdynnu sydd ymlaen yn barhaus, wedi'u gosod yn nenfydau ystafelloedd ymolchi, ystafelloedd cawod a tholedau. Dydyn nhw ddim yn defnyddio llawer o drydan ac nid ydynt yn ychwanegu llawer at eich bil.


Os nad oes gan eich cartref ffaniau echdynnu yn barod, yna mae'n werth eu gosod yn yr ystafell ymolchi a'r gegin. Mae gan ffaniau sy'n gweithio gydag amser, 'humidstat' neu linyntynn (e.e. pan fyddwch yn troi golau'r ystafell ymolchi ymlaen) sgôr o 8-30W fel arfer, felly byddai'n costio tua 10c pe byddent ymlaen drwy'r dydd.

Peidiwch â gadael i aer llaith fynd i weddill eich cartref. Pan fyddwch yn coginio neu'n cael bath, cadwch ddrws y gegin neu'r ystafell ymolchi ar gau ac agorwch y ffenestr fel bod y stêm yn mynd allan.

Yn y cyfamser, gadewch i awyr iach gylchdroi i osgoi ffurfiant llwydni lle mae'r aer yn llonydd. Gwnewch yn siŵr bod bwllch rhwng eich dodrefn a'r waliau, a gwnewch yn siŵr eich bod yn gwyntyllu'r cypyrddau dillad ac unrhyw gypyrddau eraill yn dda o bryd i'w gilydd.

3] Insiwleiddiwch eich cartref ac atal drafft

Nid yw cartrefi cynnes yn dioddef cymaint o anwedd, felly dylech wneud yn siŵr bod eich tŷ wedi'i inswleiddio'n dda. Mae hyn yn golygu inswleiddio eich atig i'r dyfnder a argymhellir o 270mm (tua 11 modfedd), a'ch waliau ceudod (os oes rhai yn eich tŷ chi). Dylai eich ffenestri a'ch drysau allanol atal drafft, a dylech ystyried gosod gwydr eilaidd os oes drafft yn dod drwy eich ffenestri.



Lle nodweddiadol ar gyfer llwydni anwedd yw ar wal allanol ac y tu ôl i ddodrefn

4] Cynheswch eich cartref ychydig yn fwy

Er nad ydych am wastraffu arian yn gwresogi ystafelloedd nad ydych yn eu defnyddio, mae ystafelloedd oer iawn yn fwy tebygol o gael tamprwydd a llwydni. Gosodwch falf thermostateg y rheidiadur i 1 mewn ystafelloedd nad ydynt yn cael eu defnyddio fel bod y rheidiadur yn rhoi ychydig o wres pan fydd gwres canolog y tŷ ymlaen. Os nad oes gennych wres canolog, ystyriwch ddefnyddio gwresogydd ystafell gydag amserydd a rheolwr tymheredd. Cofiwch, bydd angen awyru ystafelloedd nad ydynt yn cael eu defnyddio o bryd i'w gilydd.

Mwy o awgrymiadau

Gallwch ddal anwedd sy'n diferu oddi ar ffenestri gyda sianelau anwedd a sribedi sbwng (ar gael o siopau DIY). Mae sychu ffenestri a siliau yn y bore yn helpu hefyd, ond gofalgwch eich bod yn gwasgu'r clwtyn yn hytrach na'i sychu ar reidiadur. Mewn amgylchiadau eithafol, efallai y bydd angen i chi fuddsoddi mewn dadleithydd. Gall y rhain helpu llawer ond maent yn costio unrhyw beth o £40 i dros £200, a gall rhai mwy fod yn eithaf costus i'w rhedeg.



Ac yn olaf, os oes gennych llwydni ar eich waliau a'ch nenfydau yn barod, yna mae angen i chi ei lanhau'n gywir. Dull effeithiol yw dechrau drwy lanhau'r llwydni gyda chwistrell sy'n cynnwys cannydd. Bydd hyn yn helpu i gael gwared ar y staenio y gall llwydni parhaus ei adael ar ôl.

Gadewch iddo sychu dros nos ac yna chwistrellwch yr ardal sydd wedi'i effeithio gyda golch gwrth-ffwngaid a gadael iddo sychu. Dilynwch gyfarwyddiadau'r gwneuthurwr bob amser ac ystyriwch wisgo mwgwd wyneb wrth chwistrellu.

Gallech hefyd drin yr ardal sydd wedi'i effeithio gyda phaent gwrthsefyll llwydni, sydd ar gael yn y rhan fwyaf o siopau mawr.

Ffigurau yn gywir Chwefror 2015

Awgrymiadau ar gyfer lleihau biliau ynni

Hapus i dalu mwy am eich trydan a'ch nwy nag sydd angen? Nac ydych wrth gwrs. Felly dyma sut y gallwch leihau eich biliau:

Rhowch ddiwrnod yn yr haul i'ch dillad a rhowch seibiant i'ch peiriant sychu dillad. Mae dillad wedi'u sychu yn yr awyr iach yn teimlo'n wych, ac mae dyddiau sychu yn y gaeaf, hefyd.



Dysgwch nhw'n ifanc. Anogwch eich plant i ddiffodd teganau trydan a goleuadau nad ydynt yn eu defnyddio. Buan y byddant yn dod i arfer arbed ynni.

Byddwch yn ffrind i'ch rhewgell. Dylech ei ddadrewi'n rheolaidd i'w helpu i weithio'n fwy effeithlon.

Ydych chi ar fin prynu peiriant golchi, teledu neu beiriant golchi llestri newydd?

Edrychwch am y logo Ymddiriedolaeth Arbed Ynni.



Peidiwch â gorlenwi'r tegell (ond gwnewch yn siŵr eich bod yn gorchuddio'r elfen metel yn y gwaelod).



Osgowch y drafft! Gosodwch rimynnau drafft i'ch drws ffrynt, blwch llythrau a thwll allwedd, a chaewch eich llenni wrth iddi nosi er mwyn cadw'r gwres i mewn.

Trowch eich gwres i lawr 1 gradd. Prin y byddwch yn sylwi ar y newid yn y tymheredd, ond bydd yn gwneud gwahaniaeth mawr i'ch bil gwresogi.

Cysgwch yn dda. Gwnewch yn siŵr bod yr holl oleuadau'n cael eu diffodd pan fyddwch yn mynd i'r gwely. Os ydych am oleuo ystafell plentyn neu landin, defnyddiwch olau nos watedd isel.



Mae ein **Tim Ynni Cartref** yn cynnig cyngor am ddim ar y defnydd o ynni domestig i ddeiliaid tai ym Mryste a Gwlad yr Haf (gan gynnwys awdurdodau unedol Gogledd Gwlad yr Haf a Chaerfaddon a Gogledd Ddwyrain Gwlad yr Haf).

Ffôn: **0800 082 2234** or **0117 934 1957**

E-bost: **home.energy@cse.org.uk**

Gwe: **www.cse.org.uk/loveyourhome**



www.facebook.com/EnergySavingAdvice



www.twitter.com/@cse_homeenergy



3 St Peter's Court
Bedminster Parade
Bristol BS3 4AQ

Charity 298740

0117 934 1400
www.cse.org.uk
info@cse.org.uk

Founded 1979

Mae'r Ganolfan Ynni Cynaliadwy (CSE) yn elusen genedlaethol sy'n helpu pobl i newid y ffordd maent yn meddwl ac yn gweithredu ar ynni.